BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# CYLCHLYTHYR

RHIFYN 3, Hydref 2023

## NEGES GAN REOLWR Y BWRDD



Croeso i drydydd rhifyn ein cylchlythyr ar ran Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru!

Yn rhifyn yr hydref hwn, ein nod yw rhoi gwybodaeth a diweddariadau allweddol i chi am yr hyn sy'n digwydd ym myd diogelu ar draws ein hasiantaethau partner yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae hyn yn cynnwys newyddion o bob rhan o'r rhanbarth a gwybodaeth am feysydd ymarfer, hyfforddiant, polisi, deddfwriaeth, ymgyrchoedd yn ogystal â dolenni i wybodaeth ddefnyddiol ac i amrywiaeth o adnoddau a gwybodaeth a all eich cefnogi yn eich gwaith.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r rhifyn hwn.

Julie Breckon—Rheolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

## YN Y RHIFYN HWN


**RHANBARTHOL**

⇒ Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

⇒ CWMPAS yn croesawu Cadeirydd newydd

⇒ Wythnos Genedlaethol Diogelu 2023: Cadwch y Dyddiad!

⇒ Seremoni Gwobrau Ymarfer Diogelu 2023

⇒ Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Gwasanaethau Cynghori Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA)

⇒ Hyfforddiant ar Ymdrin â Honiadau Deuol (a ardystiwyd ar gyfer DPP)

⇒ Ei Mawrhydi'r Frenhines yn cwrdd â Chynrychiolwyr Calan DVS

⇒ Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt (BWESG)

⇒ Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig (DAVRU)

⇒ Canllawiau Ymarfer Amlasiantaeth ar gyfer ymdrin ag achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol i ddiogelu oedolion ag anghenion gofal a chymorth

⇒ Cadw babanod a phlant yn ddiogel o gwmpas anifeiliaid anwes

⇒ Hyfforddiant Rhad-ac-am-ddim: Pobl Hŷn a Thrais Rhywiol

⇒ Cysgu'n Fwy Diogel - Canllawiau

**CENEDLAETHOL**

⇒ Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16 i 18 oed mewn addysg bellach

⇒ Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant

⇒ Cyhoeddi Canllawiau Statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref

⇒ Adolygiad Cyflym Cenedlaethol o Wasanaethau Amddiffyn Plant

# CYHOEDDI ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Yn ystod yr haf roedd yn dda gennym gyhoeddi ein hadroddiad blynyddol sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y canlyniadau a bennwyd gan CYSUR a CWMPAS fel rhan o'n Cynllun Strategol Blynyddol ar y cyd ar gyfer y flwyddyn 2022-23.

Mae ein llwyddiannau arbennig eleni yn cynnwys datblygu pecynnau hyfforddiant diogelu amlasiantaeth. Mae hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu hyfforddiant chwilfrydedd proffesiynol a'r adnoddau sy’n cyd-fynd â hynny, yn ogystal â datblygu animeiddiad hyfforddiant diogelu a grëwyd gan ein Bwrdd Iau.

Mae ein hymrwymiad parhaus i gyflawni yn erbyn ein hagenda Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) wedi symud ymlaen yn gyflym eleni. Mae ein strategaeth pedair blynedd newydd a'r cynllun cyflawni sy’n cyd-fynd â hi wedi cael eu cwblhau a'u cyhoeddi, a hwythau wedi'u goleuo'n uniongyrchol gan oroeswyr sydd â phrofiad personol o gam-drin domestig yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae datblygu atebion creadigol i rai o'r heriau sylweddol o ran y gweithlu a brofir gan y sector gofal cymdeithasol a’r sector cyhoeddus wedi parhau i fod yn ffocws allweddol i waith y Byrddau eleni, o fewn cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol. Cynhaliwyd adolygiad o'r gweithlu gofal cymdeithasol ledled y rhanbarth, a byddwn yn cymryd camau gweithredu yn y flwyddyn sydd i ddod i wella arferion recriwtio a chadw staff yn lleol ochr yn ochr â gwaith cenedlaethol parhaus.

Mae'r adroddiad ar gael i'w weld ar ein gwefan yn https://www.cysur.wales/our-annual-report-2022-23-is-now-live/





THE MID & WEST WALES SAFEGUARDING CHILDREN & ADULTS BOARDS

Launch and Implementation of **“The Do’s and Don’ts of Caring”**

It gives us pleasure to share the outcome of 18 months of dedicated work undertaken by our Junior Board, which culminated in the launch and implementation of an animation to support safeguarding training, “The Do’s and Don’ts of Caring”. This originated from a regional Child Practice Review surrounding the tragic death of a child, where it was recommend the voice of the child and children’s lived experience needed to directly inform multi-agency safeguarding training.


Led by the regional Training Sub-Group, a brief was shared with the Junior Board, CADW, inviting them to produce a piece of work which could be utilised in regional safeguarding training across agencies in the partnership. CADW were asked to share their views about how safeguarding practitioners could more effectively support them, and were free to choose the format of the resource they produced.

They decided to develop an animation, and to invite a professional animator to develop a product fully designed and scripted by the young people. Curious Ostrich and Space to Create were employed following approval of the Junior Board’s Animation Task and Finish Group, as animator and artist for the animation. Next, the young people conducted surveys in local groups to obtain some further views from children and young people beyond the Task and Finish Group. The findings from this work, together with learning obtained from completed Child Practice Reviews in which children’s views were shared in contribution to the review process, were considered by the Task and Finish Group as a basis to the message to be delivered via the finished product.

Young people in the Task and Finish Group also shared and considered their own experiences and perspectives of how they have been supported by professionals in the past. The young people utilised these sources to devise a script, and designed characters to feature in the animation.

Three regional workshops were then held with the animator and artist, in which the young people produced materials and recorded the animation in stop-frame motion. Imagery and sound in the animation were created by the young people with careful consideration of how to illustrate the message conveyed in their script.

ANNUAL REPORT 2022-2023 27


THE MID & WEST WALES SAFEGUARDING CHILDREN & ADULTS BOARDS

High-Risk Behaviours for Adults at Risk (Including Hoarding and Self-Neglect)

Current legislation in Wales provides a robust and comprehensive framework for agencies to provide early intervention for adults who exhibit high-risk behaviours, including those who hoard and self-neglect.

Irrespective of this, a disproportionately high number of cases feature in referrals into the Boards for Adult Practice Reviews and MAPFs, where sadly adults have either died or suffered serious harm where concerns of this nature are known and understood by professionals, who often feel powerless to effectively intervene to prevent harm or reduce risk.

Following the implementation of a regional protocol to support this hugely complex and challenging area of work last year, work has continued this year led by the Adult Safeguarding Leads to implement the model consistently.

Numbers who meet the criteria to be considered by the model are lower than expected and this will be further reviewed in the coming year. It is hoped the framework will help improve practitioners’ understanding of the legislation in Wales, alongside an enhanced and improved understanding of how mental capacity legislation can be implemented to support adults in a more creative, solution focused multi-agency approach.

ANNUAL REPORT 2022 - 2023 49

# CWMPAS YN CROESAWU CADEIRYDD NEWYDD

Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn falch o groesawu Michael Gray, Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai Cyngor Sir Penfro fel Cadeirydd newydd CWMPAS, y Bwrdd Diogelu Oedolion rhanbarthol.

Meddai Michael, "Yn ddiweddar, ymunais â Chyngor Sir Penfro fel y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai ac rwyf wrth fy modd i ymgymryd â swydd Cadeirydd CWPMAS ar gyfer Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fel un a arferai fod yn Bennaeth Gwasanaethau Oedolion, rwy'n gwybod pa mor bwysig yw gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod diogelu yn fusnes i bawb. Rwyf wedi bod yn rhan o Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ers 2019 ac edrychaf ymlaen at ddefnyddio ein partneriaeth amlasiantaeth gref i hyrwyddo ei waith pwysig."



**Michael Gray, Cadeirydd CWMPAS**

# WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2023: CADWCH Y DYDDIAD!

Bydd Wythnos Genedlaethol Diogelu yn cael ei chynnal rhwng 13 ac 19 Tachwedd. Mae nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen wedi cael eu cynnal hyd yma ac mae rhaglen ranbarthol, a ategir gan ddigwyddiadau cenedlaethol a lleol yn dod i drefn yn dda.

Ein thema ranbarthol ar gyfer eleni yw Diogelu mewn Cymunedau Gwledig, gan adlewyrchu natur wledig ac amrywiol ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. Bydd Powys yn cynnal cynhadledd ranbarthol ar 16 Tachwedd ar thema Iechyd Meddwl mewn Cymunedau Gwledig. Cynhelir y diwrnod llawn hwn o gyflwyniadau, gweithdai a sesiynau gwybodaeth ar faes y Sioe Frenhinol yn Llanfair-ym-Muallt. Mae themâu eraill yn cynnwys gwaith o amgylch y strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sydd newydd gael ei chreu, gwrthderfysgaeth, diogelwch anifeiliaid ac yn genedlaethol yn cynnwys adolygiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant.

Rydym yn edrych ymlaen at rannu rhagor o fanylion wrth iddynt gael eu cadarnhau. Dilynwch #NSW2023 i gael diweddariadau pellach.

# AFLONYDDU RHYWIOL RHWNG CYFOEDION YMHLITH DYSGWYR 16 I 18 OED MEWN ADDYSG BELLACH



Estyn
estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales
Peer-on-peer sexual harassment among 16 to 18-year-old learners in further education
June 2023



Cynhaliwyd arolygiad thematig ledled Cymru gan Estyn a chyhoeddwyd adroddiad ar ei ganfyddiadau ym mis Mehefin 2023. Dilynodd ymweliadau personol gan Arolygwyr Estyn â 12 coleg Addysg Bellach ledled Cymru yn hydref 2022 i werthuso aflonyddu rhywiol rhwng cymheiriaid ac adolygu'r diwylliant a'r prosesau a oedd ar waith.

Ar y cyfan, daeth yr arolygiad i'r casgliad bod y mater yn gymhleth a bod nifer yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt yn is yn gyffredinol na'r nifer sy'n digwydd. Mae llawer o bobl ifanc yn dewis peidio â rhoi gwybod a/neu yn aml yn ansicr sut i roi gwybod am ddigwyddiad.

Nodwyd fod angen gwell cymorth a hyfforddiant ar staff mewn colegau i adnabod ac ymateb i achosion o'r fath. Efallai y bydd pobl ifanc sy'n nodi eu bod yn fenywod, LHDTC+ a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn fwy tebygol o brofi aflonyddu rhywiol.

Gweler y ddolen i'r adroddiad llawn ar wefan Estyn yn https://www.estyn.gov.wales/thematic-report/peer-peer-sexual-harassment-among-16-18-year-old-learners-further-education

# SEREMONI GWOBRAU YMARFER DIOGELU 2023

Dathlwyd ymroddiad, cydnerthedd a gwaith caled gweithwyr diogelu proffesiynol yn ail seremoni wobrwyo flynyddol Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, a gynhaliwyd eleni ym Mhencadlys Heddlu Dyfed Powys, Llangynnwr, Caerfyrddin.

Roedd y digwyddiad yn cydnabod cyfraniad gweithwyr allweddol o amrywiaeth o asiantaethau yn y sector cyhoeddus i gadw'r plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn ddiogel. Ymhlith yr ymarferwyr a gydnabuwyd roedd gweithwyr iechyd proffesiynol a nyrsys, swyddogion heddlu, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr addysg proffesiynol a gweithwyr a rheolwyr cartrefi gofal a nyrsio.

Mynychwyd ac anerchwyd y seremoni gan Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru, Albert Heaney a ddywedodd:

"*Fel Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, rwyf wrth fy modd ein bod ni i gyd yn cymryd yr amser i gydnabod y gwaith hanfodol y mae ein gweithwyr diogelu proffesiynol yn ei wneud. Mae eu hymroddiad i gefnogi ac amddiffyn yr unigolion mwyaf agored i niwed ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru i'w ganmol*."

Mae rhagor o wybodaeth am y gwobrau, ynghyd â manylion a lluniau'r enwebeion ar gael ar ein gwefan yn: https://www.cysur.wales/safeguarding-practice-awards-ceremony-2023/

# ENILLWYR AC ENWEBEION A GAFODD GANMOLIAETH UCHEL



Hywel Dda University Health Board



Eden Carlisle and Meghan Ware, Hywel Dda University Health Board



Claire Williams, Powys County Council



Group Photograph of Attendees



Karen Panter, Pembrokeshire Local Authority



Mandy Nichols-Davies, Hywel Dda University Board



Noreen Jackman, Carmarthenshire Local Authority



Natalie Hancock, Regional VAWDASV Coordinator



WAST Safeguarding Team



Lorna Milner, Carmarthenshire Local Authority



Gareth Tucker, Pembrokeshire County Council



Sharon Titley, Powys Local Authority



Cheryl Loughlin, Pembrokeshire County Council




David Jones, Ceredigion County Council



Group Photograph of Attendees



Rachael Jones, Ceredigion County Council



Veronica Jarman, Hywel Dda University Health Board



Julie Cunningham, Pembrokeshire County Council

## LLONGYFARCHIADAU I'N HOLL ENILLWYR AC ENWEBEION A GAFODD GANMOLIAETH UCHEL YN Y CATEGORÏAU CANLYNOL!

**Wedi Dangos Ymrwymiad ac Ymroddiad Eithriadol i Ddiogelu Plant**

**Wedi Dangos Ymrwymiad ac Ymroddiad Eithriadol i Ddiogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg**

**Cyflawniad, Arloesi a/neu Wella Ymarfer Diogelu ar gyfer Plant**

**Cyflawniad, Arloesi a/neu Wella Ymarfer Diogelu ar gyfer Oedolion sy'n Wynebu Risg**

**Ymarfer Cyfranogol / Cydgynhyrchu yn Arwain wrth Ddiogelu Plant, Teuluoedd neu Oedolion sy'n Wynebu Risg**

**Diogelu Arwyddocaol yn y Gymuned Ehangach – Arfer Sydd Wedi Cael Effaith Gadarnhaol ar y Gymuned o ran Diogelu Plant neu Oedolion**

**Ymarfer Diogelu Eithriadol mewn Sefydliad Preswyl ar gyfer Plant neu Oedolion sy'n Wynebu Risg**

**Gwobr Cydnabod Gwasanaeth Hir/Cyflawniad Oes am Gyfraniad at Ymarfer a Datblygu Diogelu ar gyfer Plant neu Oedolion sy'n Wynebu Risg**

**Gwobrau Grŵp Pobl Ifanc CADW**

# TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL: GWASANAETHAU CYNGHORI ANNIBYNNOL AR DRAIS DOMESTIG (IDVA)

Yn ddiweddar fe gynhaliodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, ynghyd â'r pedwar Awdurdod Lleol yn rhanbarth Dyfed-Powys, broses dendro newydd ar gyfer y Gwasanaethau Cynghori Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA). Comisiynir y gwasanaeth trwy gyllid gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys a Grant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru.



**Wendy Richards, Rheolwr Gwasanaethau IDVA Partneriaeth Dal i Godi**

Mae pum asiantaeth cam-drin domestig arbenigol, Calan DVS, CarmDAS, Canolfan Argyfwng Teuluol Sir Drefaldwyn, Threshold DAS a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru wedi cydweithio i ffurfio partneriaeth Dal i Godi. Mae Dal i Godi yn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar, atal, amddiffyn a chefnogi unigolion a theuluoedd sy'n profi cam-drin domestig gan ddefnyddio model gwasanaeth sydd wedi'i fwriadu i sicrhau profiad sy’n effeithlon, yn ddiogel, yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn seiliedig ar anghenion ac yn gyfannol i bob defnyddiwr gwasanaethau.

Dechreuodd Wendy Richards, Rheolwr Gwasanaethau IDVA ar gyfer Partneriaeth Dal I Godi (a welir yn y llun) yn y rôl ym mis Mehefin 2023. Cyn hynny, bu Wendy yn gweithio i Heddlu De Cymru am 28 mlynedd yn bennaf ym maes Cam-drin Domestig. Mae Wendy, a gyflogir gan Calan DVS, yn rheoli'r staff IDVA a gyflogir ar draws y pedair asiantaeth arbenigol arall sy'n cydweithio ac sy’n rhan o 'Dal i Godi', sy'n gwasanaethu Ardal Heddlu Dyfed Powys.

Mae sawl agwedd i rôl yr IDVA ond yn greiddiol iddi mae cadw dioddefwyr cam-drin domestig yn ddiogel. Gall llwythi achosion fod yn gryn her ac mae staff IDVA yn mynd i'r afael â sawl agwedd ar gynllunio a chefnogi diogelwch. Cyn bo hir, bydd staff IDVA o Bartneriaeth Dal i Godi yn cyd-hwyluso hyfforddiant DA Matters ynghyd â Heddlu Dyfed Powys trwy gydol hydref 2023 a byddant yn darparu tua 33 sesiwn yn bennaf i swyddogion heddlu rheng-flaen. Mae'r hyfforddiant hwn yn rhaglen bwrpasol ar gyfer swyddogion heddlu ac mae wedi’i fwriadu i drawsnewid yr ymateb i gam-drin domestig gan sicrhau bod llais y dioddefwr yn ganolog, a bod ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol yn cael ei ddeall yn well.

Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2023, cafodd y gwasanaeth IDVA dros 300 o atgyfeiriadau ledled ardal Dyfed Powys, gyda'r nifer uchaf o atgyfeiriadau yn Sir Gâr.

Os hoffech gael gwybod mwy am y gwasanaeth IDVA, gallwch gysylltu â: Gwasanaeth Cynghori IDVA: 01267 221194 neu anfon e-bost i: DalIGodiIDVAService@calandvs.org.uk

## HYFFORDDIANT AR YMDRIN A HONIADAU DEUOL - (A ARDYSTIWYD AR GYFER DPP)

Yn ystod yr hydref a'r gaeaf, bydd y Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn hwyluso Hyfforddiant ar Ymdrin â Honiadau Deuol ledled y rhanbarth. Bydd y cwrs undydd hwn yn gwella hyder a gwybodaeth gweithwyr proffesiynol wrth ymdrin â honiadau deuol o gam-drin domestig, ac adnabod y prif gyflawnr.

Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer gweithwyr proffesiynol cam-drin domestig megis IDVAs neu gydlynwyr MARAC, neu bobl sydd â phrofiad o weithio gyda cham-drin domestig, ac a hoffai fwy o hyder i adnabod y prif gyflawnwr wrth asesu neu mewn cyfarfodydd amlasiantaeth a deall dynameg gymhleth cam-drin domestig.

Mae lleoedd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer 28 Medi 2023, 18 Hydref 2023 ac 14 Chwefror 2024. Bydd yr hyfforddiant rhwng 9:30am a 4pm a bydd yn cael ei gyflwyno'n rhithwir.

I gofrestru, neu i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Natalie Hancock yn: NHancock@carmarthenshire.gov.uk

## EI MAWRHYDI'R FRENHINES YN CWRDD Â CHYNRYCHIOLWYR CALAN DVS

Cafodd Calan DVS fis Gorffennaf cyffrous iawn wrth iddynt gael yr anrhydedd o gyfarfod ag Ei Mawrhydi'r Frenhines fel rhan o gyfres o ymrwymiadau Brenhinol yn Aberhonddu. Cyfarfu Ei Mawrhydi â chynrychiolwyr Calan DVS, preswylwyr lloches a'u plant. Canmolodd Ei Mawrhydi staff Calan DVS am eu hymroddiad, eu hymdrechion diflino, a'u gwaith pwysig i greu amgylchedd anogol ar gyfer goroeswyr. Gallwch ddarllen mwy am ymweliad Ei Mawrhydi ar wefan Calan yma.



*Yn y llun gydag Ei Mawrhydi Y Frenhines mae cynrychiolwyr o Calan DVS gan gynnwys (o'r chwith i'r dde) Jessica Greene (Gweithiwr Cymorth Cam-drin Domestig), Katie Samuel (Rheolwr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc), Moyra Parfitt (Pennaeth Gweithrediadau), Sue Gardiner (Uwch Weithiwr / Hyfforddwr Cymorth Cam-drin Domestig Arbenigol), Brid Kilmartin (Arweinydd Tîm), Shakira Joyner (Cadeirydd), Jen Lawton (Ymddiriedolwr), Kathy Irwin (Rheolwr Gwasanaeth Ardal), Michelle Whelan (Prif Weithredwr), Natalie Hancock (Ymgynghorydd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru).*

## ADOLYGIAD THEMATIG O ADOLYGIADAU YMARFER PLANT YNG NGHYMRU

Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yng Nghymru yn falch o allu rhannu ei ddadansoddiad a'i ganfyddiadau fel sail ar gyfer dysgu a rennir a thrafodaeth ynghylch y ffordd orau o gryfhau effeithiolrwydd diogelu plant sy'n wynebu risg ledled Cymru a lleihau ymhellach y tebygolrwydd bod achosion o niwed sylweddol yn digwydd yn y dyfodol. Bydd yr Adroddiad yn rhan ganolog o gynhadledd sydd ar ddod i'w chynnal gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ynghyd â Phrifysgol Fetropolitan Manceinion fel rhan o ddigwyddiadau Wythnos Diogelu Cenedlaethol, ar 15 Tachwedd. Yno bydd ymarferwyr ac uwch-weithwyr proffesiynol yn cael y cyfle i ystyried ei ganfyddiadau a nodi'r camau nesaf posibl o ran rhoi argymhellion yr adolygiad ar waith yn eu rolau, asiantaethau a rhanbarthau priodol.

Mae'r Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru, wedi gwneud argymhellion allweddol ar newidiadau i broses Adolygiadau Ymarfer Plant a chanllawiau deddfwriaethol, a hefyd ar hyfforddiant allweddol i'w flaenoriaethu i ymarferwyr diogelu ledled Cymru. Cynhaliwyd yr adolygiad, a gomisiynwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol gan yr Athro Michelle McManus ac Emma Ball (Cydymaith Ymchwil) o Brifysgol Fetropolitan Manceinion, a'r Athro Louise Almond (Prifysgol Lerpwl).

Mae'r Adroddiad yn nodi canfyddiadau adolygiad dadansoddol o 33 o Adolygiadau Ymarfer Plant a gynhaliwyd gan y chwe Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant yng Nghymru rhwng 2013 a 2021. Mae'r adroddiad llawn ar gael i'w ddarllen o 2 Hydref ar wefan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol: Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth - Bwrdd Ddiogelu (bwrdddiogelu.cymru)

# GRŴP DIOGELWCH DIGWYDDIADAU LLANFAIR-YM-MUALLT (BWESG)




Sefydlwyd Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt (BWESG) yn 2017 yn dilyn marwolaeth drasig dyn ifanc a oedd yn ymweld â Llanfair-ym-Muallt ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru (RWS). Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o feysydd gwasanaeth Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Heddlu Dyfed Powys, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, St John Cymru, Bugeiliaid Stryd, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Cyngor Tref Llanfair-ym-Muallt, Clybiau Ffermwyr Ifainc Cymru, Digwyddiadau Dyffryn Hafren, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, a Penmaenau Farm Camping. Mae gan y bartneriaeth 5 maes ffocws allweddol: Trafnidiaeth a seilwaith, Safleoedd trwyddedig, Iechyd a lles, Mannau agored a Gorchymyn a rheoli.

Ers ei sefydlu, mae'r Grŵp wedi galluogi goruchwyliaeth strategol ar fesurau diogelwch sydd ar waith ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru, mae'n cydlynu cyfarfodydd i rannu syniadau a mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan aelodau'r grŵp, a lle nad oes corff cyfrifol yn bodoli mae wedi gweithredu mesurau i gynyddu diogelwch y cyhoedd a lleihau'r risg o niwed.

Yn ystod digwyddiad eleni ym mis Gorffennaf, sefydlwyd Pwynt Cymorth Llanfair-ym-Muallt yn Neuadd y Strand. Fe wnaeth y cyfleuster hwn, a oedd yn gweithredu 24 awr y dydd mewn partneriaeth ag Ambiwlans Sant Ioan Cymru (SJAC), ddarparu gwasanaethau meddygol a lles, a thrin 118 o gleifion yn ystod y digwyddiad; o'r rhain cafodd 11 eu cludo i'r ysbyty i gael triniaeth bellach (9 gan SJAC a 2 gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru). Roedd Gweithwyr Ieuenctid Mynediad Agored CSP yn bresennol yn y dref bob nos o'u gasebo ym Maes Parcio'r Groe, gan roi cymorth lles, a gwybodaeth gyfeirio i bawb yr oedd angen hynny arnynt, gyda thros 2,000 o ryngweithiadau wedi'u cofnodi trwy gydol yr wythnos. Dosbarthodd y Gweithwyr Ieuenctid ddau baled o ddŵr potel hefyd, a roddwyd yn garedig gan Radnor Hills. Gwirfoddolodd yr elusen Bugeiliaid Stryd eu hamser am yr wythnos hefyd, gan gynnig cymorth i 157 o bobl.

Gellir gweld fideo sy'n amlygu gwaith y grŵp yn: https://www.youtube.com/watch?v=al_dHBoxvkc&t=17s



Gweithwyr Ieuenctid Cyngor Sir Powys ym Maes Parcio'r Groe



Rhai o'r tîm gweithredol y tu allan i Bwynt Cymorth Llanfair-ym-Muallt

# CYHOEDDI CANLLAWIAU STATUDOL AR ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF



Cafodd Canllawiau Statudol i gefnogi plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref eu cyhoeddi yng Nghymru ym mis Mai 2023. Mae'r canllawiau'n nodi cyfrifoldebau ar gyfer Awdurdodau Lleol, Ysgolion a rhieni mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys diogelu plant a allai fod yn wynebu risg o niwed, hawliau plant, cymorth ychwanegol sydd ar gael i rieni a phlant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, gan gynnwys mynediad at wasanaethau, cyfrifoldebau monitro manylach ar gyfer awdurdodau lleol gan gynnwys plant nad ydynt efallai'n hysbys a chyfrifoldebau ar gyfer ysgolion pan fydd addysg ddewisol yn y cartref yn cael ei hystyried gan rieni neu ofalwyr fel dewis i'w plant.

Mae'r canllawiau statudol yn helpu i sicrhau bod pob plentyn yn cael cymorth i gael mynediad at y gwasanaethau a'r manteision cyffredinol sydd ar gael fel arfer i blant a phobl ifanc mewn addysg brif ffrwd.  Mae hefyd yn helpu i egluro'r gofynion presennol yn y gyfraith a'r priod gyfrifoldebau ar rieni ac awdurdodau lleol i sicrhau ymarfer cyson ar gyfer pob plentyn, ni waeth sut y maent yn cael eu haddysg.

Datblygwyd y canllawiau yn dilyn ymgynghori ar-lein ac ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys plant a addysgir gartref a'u teuluoedd.

Mae'r canllawiau'n cydnabod ei bod yn debygol y dylanwedir ar y dull y mae rhieni sy'n addysgu gartref yn ei ddefnyddio i sicrhau bod eu plentyn yn cael addysg addas gan eu hathroniaeth neu eu barn hwy eu hunain, ac maent yn nodi y gall cynnydd, dros y tymor hir, fod ar amryw ffurfiau.

Mae'r canllawiau'n nodi bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl, er mwyn penderfynu a yw'r addysg a ddarperir gan riant yn addas, y dylai'r awdurdod lleol weld a chyfathrebu gyda'r plentyn. Mae gweld a chyfathrebu gyda'r plentyn nid yn unig yn rhoi cyfle i'r awdurdod lleol ddeall yn well sut y mae'r plentyn yn dysgu a pha feysydd dysgu y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt, ond mae hefyd yn rhoi cyfle i blant sy'n cael eu haddysgu gartref rannu eu barn ynglŷn â'r addysg y maent yn ei chael. Mae hyn yn allweddol i gynnal hawl pob plentyn i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r canllawiau cyhoeddedig ar gael i'w gweld yn https://www.llyw.cymru/canllawiau-addysg-ddewisol-yn-y-cartref

## UNED YMATEB RHITHWIR I GAM-DRIN DOMESTIG (DAVRU)

Ers 24 Ebrill 2023 mae Heddlu Dyfed Powys wedi bod yn cynnal rhaglen beilot yn Sir Gâr lle cynigir gwasanaeth i ddioddefwyr digwyddiadau cam-drin domestig a aseswyd yn briodol o safbwynt risgiau sy'n eu galluogi i ymgysylltu yn y fan a'r lle gyda swyddog heddlu trwy alwad fideo. Gelwir yr adran yn 'Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig' (DAVRU).

Mae'r alwad fideo'n cael ei recordio ac yn ystod yr alwad bydd y swyddog yn cwblhau datganiad gyda'r dioddefwr, yn cael delweddau o anafiadau/ difrod, sgrinluniau o unrhyw dystiolaeth, ac yn cwblhau asesiad risg DASH sy'n eu galluogi i nodi'r risg, rhoi cyngor diogelu a gwneud unrhyw atgyfeiriadau perthnasol. Ers i'r rhaglen beilot ddechrau, mae swyddogion wedi ymgysylltu â thros 300 o ddioddefwyr Cam-drin Domestig.

Mae llawer o ddioddefwyr wedi mynegi ei bod yn well ganddynt y gwasanaeth hwn gan ei fod yn atal yr angen am gar heddlu y tu allan i'w cyfeiriad sy'n gwneud i gymdogion ddechrau siarad, a'i fod yn eu galluogi i ddarparu eu cyfrif hwy o gysur eu tŷ eu hunain. Bu nifer o achosion lle mae'r dioddefwr wedi ymgysylltu â'r heddlu trwy alwad fideo gan arwain at arestio'r sawl sydd dan amheuaeth ac, ar rai achlysuron, ei gadw yn y ddalfa.

Ar hyn o bryd mae'r tîm yn cynnwys chwe Chwnstabl Heddlu a 2 Ringyll Heddlu sy'n gweithio rhwng 9am ac 8pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae adborth swyddogion wedi bod yn gadarnhaol iawn hefyd. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys:

⇒ "Rwy'n teimlo bod yr adran wedi bod yn amhrisiadwy o ran, nid yn unig cynorthwyo swyddogion ymateb gyda'u llwyth gwaith, ond yn bennaf oll darparu gwasanaeth ardderchog i ddioddefwyr cam-drin domestig".

⇒ "Mae'r holl staff yn yr adran yn awyddus ac yn ymrwymedig i'w gwaith, sydd heb os wedi cael effaith gadarnhaol ar y gwahaniaeth y mae'r adran yn ei wneud i'r dioddefwyr hynny, ac i'r swyddogion y trosglwyddir y galwadau iddynt"

⇒ "Gall swyddogion DAVRU fuddsoddi mwy o amser gan sicrhau yr ymchwilir yn drylwyr i bob elfen o adroddiad Cam-drin Domestig ac y cynigir ac y rhoddir cyngor diogelu ystyrlon gan felly gynnig gwasanaeth llawer gwell i ddioddefwyr cam-drin domestig"

⇒ "A minnau wedi bod yn gwneud gwaith plismona rheng-flaen am 17 mlynedd, rwy'n gweld y rhaglen beilot hon fel chwa o awyr iach i ddioddefwyr. Rydym yn gallu ymdrin â hwy'n llawer cyflymach nag y gall ymateb arferol ac mae'r adborth yr wyf wedi'i gael wedi bod yn gwbl gadarnhaol.

⇒ "O'm hamser i'n gweithio ar ymateb, byddai fy marn a'm hamser a dreuliwyd ar y mathau hyn o alwadau'n wahanol iawn i'r ffordd yr wyf wedi ymdrin â hwy yn yr adran hon. Fy marn i yw ei fod wedi gwneud gwahaniaeth enfawr."

⇒ "Gall DAVRU gynnig gwell gwasanaeth i'r dioddefwr trwy fuddsoddi mwy o amser gyda'r dioddefwr. O'm profiad i mae dioddefwyr yn fwy parod i siarad ac yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth siarad am achosion cam-drin domestig cymhleth a hanesyddol."

Y camau nesaf i'r adran yw cynnal gwerthusiad i ganfod a fydd hyn yn cael ei weithredu fel agwedd barhaol ar yr ymateb plismona yn Heddlu Dyfed Powys.

## CANLLAWIAU YMARFER NEWYDD

Mae Canllawiau Ymarfer Amlasiantaeth newydd ar gyfer ymdrin ag achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol i ddiogelu oedolion ag anghenion gofal a chymorth wedi cael eu cyhoeddi ar dudalen Polisïau a Gweithdrefnau gwefan CYSUR.

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau i gynorthwyo partneriaid Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) lle maent yn effeithio ar oedolion ag anghenion gofal a chymorth a hefyd lle mae'r atgyfeiriadau hyn y tu allan i'r trothwy oedolyn sy'n wynebu risg.

Gallwch weld y Canllawiau Ymarfer newydd hyn ar dudalen Polisïau a Gweithdrefnau Rhanbarthol ein gwefan yma.

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Safeguarding Board

**Multi-Agency Practice Guidance for Dealing with Cases of Domestic Abuse and Sexual Violence to Safeguard Adults with Care and Support Needs**

THE MID AND WEST WALES SAFEGUARDING BOARD

# ADOLYGIAD CYFLYM CENEDLAETHOL O WASANAETHAU AMDDIFFYN PLANT




Yn dilyn amgylchiadau marwolaeth drasig Logan Mwangi ym Mhen-y-bont ar Ogwr a chyhoeddi'r adolygiad ymarfer plant wedi hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad cenedlaethol o wasanaethau amddiffyn plant ledled Cymru.

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn. Pwrpas yr adolygiad yw penderfynu i ba raddau y mae'r strwythurau a'r prosesau presennol yng Nghymru yn sicrhau bod enwau plant yn cael eu gosod yn briodol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a'u tynnu'n briodol oddi arni (pan fo tystiolaeth ddigonol yn dangos ei bod yn ddiogel gwneud hynny).

Mae canfyddiadau llawn yr adolygiad bellach wedi cael eu cyhoeddi fel adroddiad cenedlaethol gydag argymhellion amlasiantaeth. Mae hwn ar gael i'w lawrlwytho yn: [Rydym wedi cyhoeddi adolygiad cyflym ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru | Arolygiaeth Gofal Cymru]

# CADW BABANOD A PHLANT YN DDIOGEL O GWMPAS ANIFEILIAID ANWES

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi cynhyrchu nifer o adnoddau yn dilyn sawl ymholiad diogelu diweddar ynghylch diogelwch anifeiliaid anwes a brathiadau cŵn, a'r cynnydd cenedlaethol mewn adroddiadau o ymosodiadau difrifol gan gŵn.


Mae hyn yn cynnwys taflenni gwybodaeth i'w rhannu gyda chleientiaid sy'n feichiog a'r rhai sydd â phlant, ynghyd â sesiwn friffio 7 munud sy'n amlinellu gwybodaeth ar gyfer staff a chamau gweithredu i'w cymryd os yw plentyn yn cael ei frathu neu os oes pryderon ynghylch anifeiliaid anwes yn y cartref neu'r gymuned. Maent yn cynghori bod "angen i'r sgyrsiau hyn ddechrau'n gynnar yn y cyfnod cynenedigol a pharhau wrth i'r plentyn dyfu er mwyn i rieni a gofalwyr fod yn ymwybodol sut y gallant leihau'r risg o niwed a sicrhau bod anifeiliaid anwes a phlant yn cyd-fyw yn hapus."

Cwblhaodd Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant Iechyd Cyhoeddus Cymru Adolygiad Cyflym lle daethpwyd i'r casgliad mai'r un cyngor pwysicaf i aelodau'r cyhoedd yw: 'Peidiwch byth â gadael baban neu blentyn ifanc heb oruchwyliaeth gyda chi, hyd yn oed am eiliad, ni waeth pa mor dda rydych chi'n adnabod y ci hwnnw.'

Gellir lawrlwytho taflenni o dudalen diogelwch anifeiliaid anwes ar ein gwefan. I gael adnoddau defnyddiol eraill, ewch at:

- **Dogs Trust**: www.dogstrust.org.uk
- **Blue Cross**: www.bluecross.org.uk
- **RSPCA** www.rspca.org.uk (Mae'r RSPCA hefyd yn rhedeg llinell gymorth 24 awr, ffoniwch 0300 1234 9999 i roi gwybod am greulondeb neu anifail mewn trallod).





# HYFFORDDIANT AM DDIM: POBL HŶN A THRAIS RHYWIOL

Ar hyn o bryd mae New Pathways yn gweithio gyda rhai o'u cleientiaid hŷn i ddatblygu cwrs peilot o'r enw Pobl Hŷn a Thrais Rhywiol. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn maent yn bwriadu cyflwyno dau o'r cyrsiau a fydd yn rhad ac am ddim i unrhyw un fynychu.

**Nod y cwrs:** Er ei bod hi'n anodd cael data cywir ar fynychder, mae'n debygol nad yw pobl hŷn yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn gwasanaethau trais rhywiol arbenigol. Mae'r cwrs hwn yn archwilio'r rhesymau dros hyn ac yn archwilio ffyrdd o ymateb yn fwy effeithiol i anghenion pobl hŷn y mae trais rhywiol yn effeithio arnynt.

**Pwy ddylai fod yn bresennol:** Mae'n addas ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr o'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol sy'n gweithio gyda phobl hŷn.

**Dyddiadau a gwybodaeth ar gyfer cadw lle**:

1 Tachwedd 2023: 10.00am – 1.00pm (ar-lein) neu 6 Tachwedd 2023: 2.00pm – 5.00pm (ar-lein)

I gael rhagor o wybodaeth, ewch at: https://www.newpathways.org.uk/

# CYSGU'N FWY DIOGEL - CANLLAWIAU




Fel arfer, cyfeirir at farwolaeth sydyn ac annisgwyl baban gan weithwyr proffesiynol fel 'marwolaeth annisgwyl sydyn mewn babandod' (SUDI) neu 'marwolaeth annisgwyl sydyn mewn plentyndod' (SUDC), os oedd y baban dros 12 mis oed. Er nad oes esboniadau pendant am rai o'r marwolaethau hyn, mae tystiolaeth ddibynadwy sy'n cysylltu problemau gydag amgylchedd cysgu babanod â risg uwch o farwolaeth annisgwyl sydyn.

I rannu gwybodaeth am y pwnc pwysig hwn, rydym wedi sefydlu tudalen newydd ar ein gwefan i gynnal adnoddau sy'n ddefnyddiol yn y maes hwn. Mae hon yn cynnwys dolenni i adnoddau gan Ymddiriedolaeth Lullaby sy'n cynnwys cyhoeddiadau sy'n rhoi cymorth a chyngor (mae rhai ar gael mewn sawl iaith), gwybodaeth ac adnoddau i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhieni â babanod ifainc a theuluoedd sydd wedi cael profedigaeth, a chyngor ynghylch cwsg mwy diogel.




Mae dolenni eraill a gwybodaeth arall a allai fod yn ddefnyddiol yn cynnwys:

- Cyngor y GIG - Lleihau'r risg o syndrom marwolaeth sydyn babanod (SIDS)
- Cwsg mwy diogel, Sesiwn Briffio 7 Munud a grëwyd gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.
- Cyngor Ar Ôl Geni i rieni gan Tommy
- Cyd-gysgu a SIDS, canllaw i weithwyr Iechyd proffesiynol

I gael mynediad at y wefan, gweler: https://www.cysur.wales/resource-hub-dashboard/safer-sleeping/

# DIWRNODAU YMWYBYDDIAETH SYDD AR DDOD

Isod ceir dyddiadau diwrnodau ymwybyddiaeth ar gyfer eich dyddiaduron. Cofiwch ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol i gael dolenni ac adnoddau sy'n cyd-fynd â phob un o'r diwrnodau hyn.

## Hydref

| | |
|---|---|
| 1 Hydref | Diwrnod Rhyngwladol y Person Hŷn |
| 9 – 15 Hydref | Wythnos ymwybyddiaeth o golli baban |
| 10 Hydref | Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd |
| 11 Hydref | Diwrnod Rhyngwladol y Ferch |
| 16 – 22 Hydref | Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu |

## Tachwedd

| | |
|---|---|
| 13 - 19 Tachwedd | Wythnos Genedlaethol Diogelu |
| 19 Tachwedd | Diwrnod Rhyngwladol y Dynion |
| 20 Tachwedd | Diwrnod Plant y Byd |
| 20 - 26 Tachwedd | Diogelu Oedolion |
| 23 Tachwedd | Diwrnod Hawliau Gofalwyr |

## Rhagfyr

| | |
|---|---|
| 3 Rhagfyr | Diwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anableddau |
| 5 Rhagfyr | Diwrnod Rhyngwladol Gwirfoddolwyr |

# EIN CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**FACEBOOK**

@CYSURCYMRU

**INSTAGRAM**

@CYSURCYMRU

**TWITTER**

@CYSURCYMRU

@CWMPASCYMRU

# CYSYLLTWCH Â NI

E-bost:

**cysur@pembrokeshire.gov.uk for CYSUR**
**cwmpas@pembrokeshire.gov.uk for CWMPAS**

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Safeguarding Board